# y dinesydd

Mehefin 2002 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 272


# "Croeso! Croeso! yw ein cri I bawb sy'n dod i'n cefnogi ni!"

CAERDYDD a'r Fro

**Urdd 2002**

Croeso i'r holl gystadleuwyr a'r ymwelwyr â'r Eisteddfod ac i holl ddarllenwyr *Y Dinesydd* a mwy! Mae dwy flynedd ar bymtheg wedi mynd heibio ers i Eisteddfod yr Urdd fod yma ddiwethaf ac oherwydd clwy traed a'r genau gohiriwyd yr Eisteddfod am flwyddyn tan rwan a felly mae hon yn Eisteddfod arbennig eleni a gobaith pawb sy wedi bod yn ymhel â'r holl baratoadau yw y bydd hon yn Eisteddfod i'w chofio. Mae Caerdydd wedi newid llawer ers 1985. Mae Cynulliad gyda hi yn y Bae a Stadiwm Genedlaethol wych ond yn fwy pwysig na hynny hyd yn oed mae'r Gymraeg ar gynnydd yn ein plith ac erbyn hyn mae dros bum mil o blant a phobl ifanc Caerdydd a'r Fro yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg. Erbyn i Eisteddfod yr Urdd ddychwelyd i Gaerdydd nesa bydd Canolfan y Mileniwm ar ei thraed ym Mae Caerdydd a rhan o'r ganolfan honno wedi ei neilltuo i Fudiad yr Urdd. Mwynhewch eich ymweliad â Chaerdydd i chi sy'n dod i'n plith ac i'r ugain mil a mwy o siaradwyr Cymraeg sy'n byw yng Nghaerdydd a'r Fro cofiwch ddod draw i Gae Cooper y tu ôl i'r Castell i fwynhau'r Eisteddfod yn ystod yr wythnos a chyda'r nos yn Neuadd Dewi Sant, Ysgol Stanwell, Penarth, Y Pafiliwn ar y maes, a Chapel y Tabernacl, Caerdydd i Gymanfa Ganu ar ddiwedd yr Ŵyl. Am docynnau a mwy o wybodaeth ffoniwch Swyddfa'r Eisteddfod ar 029 2080 3360.



## GŴYL IFAN, MEHEFIN 21- 23, 2002

Er bod Eisteddfod yr Urdd ar ein trothwy ac wedi bod yno ers oes, wel mae'n teimlo fel hynny, mi fydd yn hen hanes erbyn yr amser hyn y flwyddyn nesaf, ond i ni yng Nghwmni Dawns Werin Caerdydd mae Gŵyl Ifan yn orchwyl flynyddol. Boed glaw neu hindda cynhelir gŵyl dawnsio gwerin fwyaf Cymru yng Nghaerdydd a'r cyffiniau ar y penwythnos agosaf at ganol Haf. Eleni mae'n syrthio ar benwythnos Mehefin 21 - 23 ac yn ôl yr arfer yn dechrau gyda thwmpath yng Ngwesty'r Angel ar y nos Wener. Mae'r twmpath yn agored i bawb, boed yn gloff neu'n heini, (syndod faint o Gymry, gan amla, sy'n gresynu wrth feddwl am ddawnsio).

Ar y Ddydd Sadwrn gwelir dawnswyr o Gymru ben baladr a chyfeillion tramor, Volksdansgroep Den Ossaert, o'r Iseldiroedd eleni, yn gorymdeithio trwy Gaerdydd cyn codi'r Pawl Haf o flaen Neuadd y Ddinas. Yna, bydd y criw yn rhannu, rhai i'r Fro a'r Blaenau, eraill o gwmpas y ddinas a'r gweddill i'r Bae ac yn cwrdd i orffen eu teithio i gyd-ddawnsio lawr yn y Basn Hirgrwn. Yn y nos wrth gwrs cynhelir y Daplas yn Neuadd y Ddinas gyda'r ŵyl ymylol yn dilyn. Eleni gobeithiwn gynnal gweithdai ar fore Sul yn ymwneud â dawnsio Iseldiraidd a'r sgil o gyfeilio i ddawnsio gwerin.

Mae croeso i bawb ymuno â ni. Cewch fwy o fanylion oddi wrth: Dai James, 50, Prospect Drive, Llandaf. 02920 563989 neu unrhyw un o aelodau'r Cwmni Dawns.

Nodyn personol i orffen y llith. Ces ddiwrnod i'r brenin rhyw dair wythnos yn ôl. Gweld Catherine Zeta yn cerdded lawr y Bae. Un fechan yw hi. Wedyn mynd i weld sioe wefreiddiol croten lai fyth, sef Kylie Minogue yn y nos. Mae rhaid bod rhywbeth yn bod ar ein teulu ni achos roedd y wraig a finnau wrth ein boddau ynghanol y rhialtwch a Lowri, y ferch, yn meddwl ei bod hi'n "Kylie look alike" yn morio canu. Noson grêt, a'r groten yn ynganu "Diolch Caerdydd" gydag arddeliad.

**Rhodri Jones**

# Y Dinesydd

**Mehefin, Rhif 272.** **ISSN 1362-7546**

Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Gwilym Roberts

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Gorff./Awst 2002 erbyn 22 Mehefin at:**
Gwilym E. Roberts, 6 Heol Wen, Rhiwbina,
Caerdydd CF14 6EF (Ffôn: 2069 3254)
e-bost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754; e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

**Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.**
**Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:**
**Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;**
**e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)**

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..............................................................................

Cyfeiriad: ........................................................................

............................................... Côd Post: ...................

Rhif Ffôn: .........................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**


Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .

**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 32** **Mehefin 2002**



**Ar Draws**

1. Fel yr aur yn Lloegr y cawn le i ddysgu (7)
4. Nid chwith cael rhywbeth i gnoi yn y ddegfed rhan (5)
7. Mae'n swnio fel y murmur sy'n difa (3)
8. Rhoi tasg i fyny mewn dryswch i greu offer anadlu (9)
9. O diar! Mae wedi torri'r diwifr (5)
11. 'Anturiaf ymlaen,
Trwy ddyfroedd a thân
.. ..... yng ngwmni fy Nuw' (D.D.) (2,5)
12. Ffurfio planc o gwmpas Mehefin 6ed i gyrraedd y man uchaf (6)
14. Meheryn rodd hyd rywsut .... (6)
17. ..... a'r genod yn troi'n bigog (7)
18. Gwêl yr ynys yma nawr yn y canol (5)
19. Oes gen ti eira i greu blodyn? (9)
20. Saf i ddechrau canu odlau digri (3)
21. Ar yr ail mae Dei'n ddiawl anwadal! (5)
22. Gwarth Dil yn colli ei ben mewn cân gynghaneddol (7)

**I Lawr**

1. Wedi eich dal mewn cerbyd efallai (2,1,4)
2. Ffug yw gwadu bob yn ail (3)
3. Tor dy gŵys yn yr ŷd yn crynu (6)
4. A wnaeth Dafydd ddryllio dy rwyf yn yr afon hon? (7)
5. Bron iddo gael gwenwyn rywsut o'r goeden hon (9)
6. Mae'n galed yn codi yn nythle temtasiwn (5)
8. 'Nid oes ... gofio beiau
Dim ond llawn faddeuant rhad' (W.W.) (3)
10. Daniel bach a'r gwas di-drefn cyn canol heddi' yn teimlo'r pwysau (3,6)
13. Cân y pum ugain i gloi yr hanner (7)
15. Pwy ydyw dy gariad, lanc ifanc o Lyn,
Sy'n rhodio'r ....... fel hyn wrtho'i hun? (W.J.) (7)
16. 'Canu wnaf ..... ......... anorffen
am fy nwyn i ben fy nhaith' (J.G.M.H.) (1,5)
17. Mae Dad yn dal y to, ond mae'n dod yn rhydd (5)
18. Lle dyn yn Lloegr (3)
20. Codi disgybl tenau (3)

**Atebion Croesair 31**

**Ar draws:** 1. Gwely; 4. Tanllyd; 7. Digwyddiad; 8. Ras; 10. Ordinhad; 13. Offer; 15. Deui wynt i wylo; 16. Asio; 17. Estyniad; 20. Cri; 21. Cychwynnol; 24. Agorfa; 25. Gwawr. **I Lawr:** 1. Godro; 2. Eog; 3. Yn y cnawd; 4. Tri; 5. Nadu; 6. Y proffwydi; 9. Serio; 11. Daufiniog; 12. Annes; 14. Digymysg; 15. Dianc; 18. Dolur; 19. Acer; 22. Chwa; 23. Nia.

Derbyniwyd 11 ymgais, ac ond un â gwall bach ynddo. Danfonir y tocyn llyfr i Gareth Westacott, 36 Edinburgh Court, Wyndham Place, Caerdydd. Cafwyd yr atebion cywir eraill gan Myfi Coslett, Y Mynydd Bychan; Gwilym Lloyd Edward, Y Bala; Gaenor Hall, Bow Street; Heledd Hall, Treganna; Gwenda Hopkin, Llanisien; Gethin Jones, Abergwaun; Margaret Jones, Rhiwbina; Buddug Roberts, Yr Eglwys Newydd; a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Mehefin 2002**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 22 Mehefin 2002.

## Calendr y Dinesydd

**Llun, 10 Mehefin**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Te Mefus a Noson Gymdeithasol, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 10 Mehefin**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd: Tony Couch (Ffôn: 2075-3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Iau, 13 Mehefin**
Cyngor Eglwysi Cymraeg Caerdydd: 'Gwarchod y Byd.' Sgwrs gan Dr Hefin Jones, ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Mehefin**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Sgwrs gan Sali Evans, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Iau, 27 Mehefin-Sadwrn, 29 Mehefin**
Cyfarfodydd Blynyddol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg, Caerdydd a'r Cylch.

**Llun, 1 Gorffennaf**
Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd, yng Ngwesty Churchills, Llandaf, 7.00 p.m ar gyfer 7.30 p.m. Manylion pellach gan yr Ysgrifennydd Tony Couch (Ffôn: 2075 3625; e-bost: ajcouch@yahoo.co.uk).

**Mercher, 3 Gorffennaf**
Aelwyd Hamdden Cymry Caerdydd: Te Mefus a Chyfarfod Blynyddol, yn festri Capel Minny Street, Cathays, am 2.30 p.m.

**Sadwrn, 6 Gorffennaf**
Adran Astudiaethau Gwerin Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru: Ysgol Undydd ar y thema 'Eglwys Teilo Sant: O Landeilo Tal-y-bont i Amgueddfa Werin Cymru', yn Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, rhwng 10.00 a.m. a 4.15 p.m. Siaradwyr: Gerallt Nash, Dr Madelaine Grey, Dr E. Wyn James. Croeso cynnes i bawb.

**Sadwrn, 6 Gorffennaf**
Rhieni Dros Addysg Gymraeg (Y Fro): Diwrnod o hwyl a phicnic ar safle'r Amelia Trust. Manylion pellach: 01446-721236 (Gwefan: www.hawddamor.demon.co.uk).

**Gwener, 16 Awst**
Ymchwil y Galon: Cyngerdd gan Gôr Meibion Toronto (sydd ar ymweliad â Chymru) ynghyd â Chôr Meibion Parc yr Arfau, yn Theatr Darlithio 1, Coleg Meddygol Prifysgol Cymru, Caerdydd, am 7.30 p.m. Tocynnau £5. Am ragor o fanylion cysylltwch â Mrs Anne Innes (029-2061-6230), Mrs Margaret Barrett (029-2075-2908) neu swyddfa Sefydliad Prydeinig y Galon (029-2038-2368).

*Anfonwch fanylion ar gyfer y Calendr at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

### Cyn Weinidog Ebeneser Caerdydd yn marw

Bu farw y Parchg Emlyn Jenkins o Lanbedr Pont Steffan yn Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin ar 28 Ebrill. Bu'r angladd yng Nghapel Soar, Llanbedr Pont Steffan ar 3 Mai. Cydymdeimlir â'i fab Huw a'r teulu yn eu colled.

### Marw Cyn Ysgrifennydd UCAC

Ar ôl cystudd hir bu farw Wyn James, cyn Lywydd a chyn Ysgrifennydd UCAC yn Ysbyty Aberteifi ar 4 Mai. Cydymdeimlir â'i weddw Mererid a'r teulu oll yn eu colled.

### Llongyfarchiadau

- i Marc Phillips ar ei benodiad fel Cyfarwyddwr Elusen y BBC "Plant Mewn Angen". Cyn hynny bu'n Brif Weithredwr Elusen Tenovus. Cynhelir Apêl "Plant Mewn Angen" ar ddydd Gwener, 15 Tachwedd eleni.
- i Huw ac Emma Davies ar enedigaeth eu merch Anni Elen yn Ysbyty Llandochau ar 4 Mai. Wyres i Bob a Carys Walford ac Eurig a Margaret Davies.
- i Bethan Elias (Y Mynydd Bychan) a Matthew Jubb (Sale, Swydd Gaer) ar eu priodas yng Nghapel Minster, Y Rhath, ar 27 Ebrill. Byddant yn ymgartrefu ar y Ddraenen (*Thornhill*), Caerdydd.

### Priodi yn y Brifddinas

Mae priodas yn achlysur pwysig bob tro, felly wyddoch chi fod hi'n bosib trefnu'ch priodas drwy gyfrwng y Gymraeg yn y Swyddfa Gofrestru? Mae'r Swyddfa yn ymwybodol o bwysigrwydd gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog felly gall unrhyw un sy'n dymuno priodi yn y Swyddfa, neu mewn unrhyw un o'r lleoliadau trwyddedig eraill yn y ddinas, drafod y manylion gyda swyddog Cymraeg ei iaith a threfnu gwasanaeth priodas yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Yn ogystal â chael y gwasanaeth yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae'r gofrestr a'r dystysgrif briodas yn ddwyieithog.

Mae'r gwasanaeth dwyieithog wedi bod ar gael ers nifer o flynyddoedd ac mae'r nifer o briodasau Cymraeg yn cynyddu'n flynyddol. Cynhaliwyd y briodas gyntaf yng Nghymru i gael ei darlledu ar y we yn ddwyieithog yng Nghaerdydd!

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â Swyddfa'r Cofrestrydd ym Mhlas y Parc neu ffoniwch 2087 1680/1.

### *Y Bywgraffiadur Cymreig* a'r *Dictionary of Welsh Biography*

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, trwy gydweithrediad â chefnogaeth Anrhydeddus Gymdeithas y Cymrodorion, wrthi ar hyn o bryd yn paratoi ar gyfer digideiddio'r *Bywgraffiadur Cymreig* a'r *Dictionary of Welsh Biography*. Fodd bynnag, cyn cychwyn mae angen i mi gysylltu â holl ddeiliaid hawlfraint yr erthyglau unigol sydd o fewn y gweithiau.

Rwyf yn chwilio'n benodol am deulu neu ddeiliad hawlfraint y canlynol:

Athro-Emeritus William Rees, D.Sc., F.S.A. (1887-1978), Caerdydd
Albert Hughes Williams M.A., Caerdydd (1907-1996)
Thomas Harris Lewis ('Tybiefab') M.A. Caerdydd
Syr James Frederick Rees Ll.D. (1883-1967) Dinbych-y-Pysgod/Caerdydd
William David Jones, Caerdydd
Ifor Ball Powell, Y Barri (1902-1986)
Arthur John Richard M..A. Caerdydd
Thomas Oswald Phillips M.A. Caerdydd
Lorraine Davies, Caerdydd
Arthur James Roderick Ph.D. (1912- ) Caerdydd
Iorwerth Cyfeiliog Peate (1901-82) D.Sc., D.Litt., Sain Ffagan/Llandaf
David Alun Williams (1920-92) Caerdydd
Miss Ray Looker (Mrs Ray Morgan) Caerdydd/Rhymni
Thomas Bassett, Caerdydd (1889-1956)
Thomas James Hopkins B.A., Caerdydd (1919- )
L.N.Hopper, Caerdydd
Archibald Henry Lee M.A., Caerdydd
Harold Mostyn Watkins M.A., Caerdydd
Parchg John Roberts Evans, Caerdydd
Mrs Annie Gwenllian Jones, Y Barri
Graeme Holmes, Llandaf
Athro-Emeritus John Morgan Lloyd Mus.D. (1880-1960), Y Barri

Os oes gennych unrhyw wybodaeth a wnewch chi gysylltu â mi:
Morfudd Jones, Adran Gwasanaethau Casgliadau,
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU
Ffôn: 01970 632800 e-bost: mnj@llgc.org.uk

## Cofio Evan Thomas, Golygydd *Y Drafod* a fu farw hanner can mlynedd yn ôl i eleni

Hanner can mlynedd yn ôl i 16 Ebrill 1952 y bu farw yn sydyn Evan Thomas, Golygydd *Y Drafod* yn Y Wladfa o waedlif ar yr ymennydd ac yntau ond yn 34 oed gan adael gweddw a thri o feibion ifanc i alaru ar ei ôl. Y flwyddyn gynt daeth i Gymru am y tro cyntaf erioed yn ei hanes gan fynychu Eisteddfod Genedlaethol Llanrwst cyn ymweld â Chaerdydd i fod yn wr gwadd mewn Noson Lawen yn Ysgol Uwchradd Cathays wedi'r Urdd gynnal Mabolgampau yn Stadiwm y Maendy y drws nesa i'r ysgol yn y pnawn. Roeddwn i yn llanc un ar bymtheg oed y pryd hynny ac yn ddisgybl yn Ysgol Ramadeg y Bechgyn Penarth ond roeddwn i'n bresennol yn y Mabolgampau a'r Noson Lawen a'r cof sy gen i o Evan Thomas oedd ei fod yn ddyn byr hefo gwallt du, mwstas a bochau rhuddgoch a'r Gymraeg yn llifo yn stacato braidd dros ei wefusau a soniodd o'n frwd am y pleser a'r mwynhâd a gafodd o yn ymweld â'r Hen Wlad am y tro cyntaf yn ei fywyd. Dotiais at ei acen Batagonaidd a phan ddychwelais adre dyma droi at lyfr R Bryn Williams "Cymry Patagonia" oedd yn y cwpwrdd llyfrau ar yr aelwyd. Ces i fy swyngyfareddu o ddarllen hanes sefydlu'r Wladfa ac o'r funud honno ymlaen ymddiddorais yn y Wladfa a'i phobl. Ond feddyliais i erioed y pryd hynny y byddwn un diwrnod yn mynd draw i'r Wladfa am dair blynedd i ddysgu Cymraeg yn wirfoddol i drigolion Dyffryn Camwy! Bu colli Evan Thomas ym mlodau ei ddyddiau yn ergyd fawr i Gymry'r Wladfa ond yn ffodus camodd y bardd a'r llenor Irma Hughes de Jones i'r adwy ac ymgymryd â'r gwaith o sicrhau parhad i'r *Drafod* a hi sy wedi bod yn olygydd ers colli Evan Thomas. Ein gobaith dwy'n siwr ydy gweld hir oes i'r *Drafod* ar lannau'r Camwy bell gan gofio am Evan Thomas y Gŵr gwlatgar o'r Gaiman a weithiodd mor galed i sicrhau llwyddiant i'r *Drafod*.

**Gwilym E Roberts**

## Cynnydd mewn addysg Gymraeg yn y Brifddinas

Ym mis Medi 2001 cofrestrwyd 444 o ddisgyblion newydd yn yr ysgolion cyfrwng y Gymraeg yng Nghaerdydd i gymharu â 104 nôl yn 1981. Erbyn hyn mae tua phum mil o blant Caerdydd yn derbyn eu haddysg drwy'r Gymraeg a'r galw yn dal i gynyddu.

## Tesco yn cefnogi'r Iaith

Fel rhan o raglen cwmni Tesco i gefnogi nwyddau a chynnyrch Cymreig bwriedir gwerthu llyfrau Saesneg yn ymwneud â Chymru a llyfrau Cymraeg yn eu prif siopau yng Nghymru.

## £20 miliwn i weddnewid safle segur Llwynfedw

Bydd safle hen waith briciau y Phoenix ar Ffordd Caerffili yn Llwynfedw yn cael ei wedd newid ar ôl ugain mlynedd o fod yn anialwch llwyr gan fod y Datblygwyr Deanminster wedi prynu'r safle gan Gwmni Tesco gyda'r bwriad o godi tai a fflatiau a siopau a bwyty ar y safle naw acer.

## Cofeb i Jack Evans

Yn ddiweddar codwyd cofeb i Jack Evans y pêl-droediwr yn y Bala. Bu'n chwarae i Dîm Caerdydd a Chymru nôl ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf ac fe'i ystyriwyd yn chwaraewr medrus dros ben. Bu'n aelod a blaenor yng Nghapel Ebeneser, Caerdydd.

## Gŵyl Ffilm Cannes

Cynhaliwyd yr Ŵyl Ffilm flynyddol yn Cannes ar ddechrau Mai ac ymhlith y ffilmiau a ddangoswyd gwelwyd y ffilm *The Gathering* gyda Ioan Gruffudd yn cymryd rhan ynddi.

## Taith gerdded Ian Botham

Cerddodd Ian Botham 231 o filltiroedd o dre Machynlleth i Gaerdydd er mwyn codi arian i gronfa Apêl Arch Noa i godi Ysbyty Plant i Gymru wedi ei leoli yng Nghaerdydd. Llwyddodd i godi £852,000 ac erbyn hyn mae dros bedair miliwn yn y gronfa. Mae angen £900,000 arall i sicrhau adeiladu y rhan gyntaf o'r Cynllun a thrwy hynny sicrhau dros bedair miliwn arall gan y Cynulliad tuag at yr ail ran o'r Cynllun.

## Yr Eglwys yn Amgueddfa Sain Ffagan

Un o'r datblygiadau pwysicaf ar safle Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan ar hyn o bryd yw ailgodi Eglwys Teilo Sant yno. Mae'r eglwys hynafol hon, a fu'n sefyll ger y draffordd yng nghyffiniau Pontarddulais, yn nodedig am ei murluniau canoloesol. Hefyd, bu'r emynydd enwog Dafydd William yn byw yn ymyl yr eglwys yn y ddeunawfed ganrif cyn iddo symud i fyw i Fro Morgannwg.

Mae Adran Ethnoleg ac Astudiaethau Gwerin Urdd Graddedigion Prifysgol Cymru yn cynnal Ysgol Undydd ddydd Sadwrn, 6 Gorffennaf, rhwng 10.00 a.m a 4.15 p.m., yn yr Amgueddfa Werin ar y thema 'Eglwys Teilo Sant: O Landeilo Tal-y-bont i Amgueddfa Werin Cymru'. Bydd Gerallt Nash o'r Amgueddfa yn sôn am brosiect ailgodi'r eglwys a Dr Madelaine Grey o Goleg Prifysgol Casnewydd yn rhoi cyd-destun y murluniau canoloesol, tra bydd Dr E. Wyn James o Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, yn trafod Dafydd William ac emynwyr eraill y Fro. Yn Ystafell Bwyllgor yr Amgueddfa y bydd y cyfarfodydd, ond bydd ymweliad â safle'r eglwys yn rhan o'r rhaglen.

Nid oes rhaid bod yn aelod o Urdd y Graddedigion i fynychu'r Ysgol. Bydd tâl cofrestru o £3. Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Emma Lile, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, CF5 6XB (Ffôn: 029-2057-3430).

## Y Testament Newydd ar y rhyng-rwyd

Er mwyn cael mwy o bobl ifanc a dysgwyr yr iaith i ddarllen a deall y Beibl yn well mae Arfon Jones, Swyddog Maes gyda'r Elusen Gobaith i Gymru wedi ail sgrifennu'r Testament Newydd mewn iaith fydd yn haws i bobl ei deall ac erbyn hyn mae'n bosibl darllen ei fersiwn o ar y rhyng-rwyd a gellir ei ddarganfod ar beibl.net

## Tu ôl i'r llenni yng Nghastell Caerdydd

Oes diddordeb arbennig gan eich grwp chi mewn hanes, pensaernïaeth neu Celfyddyd Cain? Os felly, beth am drefnu taith gyda Churadur Castell Caerdydd i ddysgu rhagor am y safle mawreddog hwn?

Caiff yr ymweliad cyfan ei gyflwyno a'i dywys gan Matthew Williams, Curadur y Castell ac un o brif arbenigwyr Prydain ar William Burges. Cewch gyflwyniad 45 munud ar thema o'ch dewis, wedyn taith awr o hyd, o gwmpas ystafelloedd y Castell wedi ei deilwra at eich dant chi. Ymysg y themâu sydd ar gael mae Ardalwyr Bute, Rhamantiaeth Pensaernïol yng Nghymru a Bywyd yng Nghastell Caerdydd Oes Fictoria.

Mae'r teithiau ar gael gydol y flwyddyn, a gallwch hefyd drefnu cinio ysgafn neu de prynhawn ar gyfer eich grwp ymlaen llaw. I gael rhagor o wybodaeth, neu i drefnu taith, ffoniwch y Castell ar 2087 8100 neu danfonwch e-bost ar cardiffcastle@cardiff.gov.uk

# Newyddion o'r Eglwysi

## Ebeneser

Tristwch mawr inni fel eglwys oedd clywed am farwolaeth ein cyn-weinidog, Y Parchg Emlyn Jenkins ddechrau mis Mai. Bu'n weinidog arnom am dros ddeng mlynedd ar hugain. Daeth atom yn 1947 o eglwysi Pencader ac Alltwalis a bu yma hyd nes ei ymddeoliad yn 1977. Bu gyda ni ddiwethaf yn y gwasaneth arbennig gynhaliwyd ddiwedd y llynedd i nodi dathliadau'r eglwys yn 175 oed. Fe'i cofiwn yn arbennig am ei bregethu grymus a'i ofal caredig drosom fel cynulleidfa.

Bu plant yr Ysgol Sul wrthi'n ddiwyd yn hel arian at Arch Noa, apêl ar gyfer ysbyty blant yng Nghaerdydd, trwy gasglu gwahanol eitemau penodol cyffredin o'u cartrefi a chwilio am nawdd i wneud hynny.

## EGLWYS EFENGYLAIDD GYMRAEG CAERDYDD

Llongyfarchiadau i Lois Ioan a Steve Bowen ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Mae Lois yn athrawes tecstiliau yn Ysgol Gyfun Rhydfelen ac yn enedigol o Lanfechell, Ynys Môn, ac mae Steve yn gyfreithiwr yng Nghasnewydd, ac yn enedigol o dref y Sosban. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol.

Ar fore dydd Sul 12 Mai, cawsom gyfle i gofio gwaith Tearfund yn y gwledydd datblygol. Clywsom am sefyllfa enbydus Ian Stillman, un o bartneriaid Tearfund, yn y carchar yn Kanda, ger Shimla, India. Cafodd ei gyhuddo ar gam o gludo cyffuriau. Clywsom hefyd am waith y mudiad yn cynorthwyo'r trigolion i adfer y tir sy'n cael ei golli i'r môr yn Bangladesh.

Wedi oedfa'r hwyr cawsom gyfle i weld tâp fideo Tearfund, "Lifesaver", a bydd casgliad y Sul yn mynd i gefnogi'r gwaith a wneir yno. Y bobl ifanc a arweiniodd y gwasanaeth oedd Emyr James, Llion Evans, a Catrin Williams.

Cyhoeddwyd rhifyn arall o gylchgrawn yr Eglwys yn ystod y mis hwn. Bydd copïau o *Cwmpawd* ar gael yn rhad ac am ddim yn stondin yr Eglwys Efengylaidd ar faes Eisteddfod yr Urdd. Ymhlith y cyfraniadau, ceir erthygl yn adrodd hanes cynnar adeilad yr eglwys gan y Parch. Ddr Noel Gibbard.

Llongyfarchiadau i Janet Evans ar gael ei phenodi i swydd newydd yn ysgol Sant Baruc yn y Barri. Pob dymuniad da iddi yn y swydd.

## MINNY STREET, CAERDYDD

Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â theulu **Mrs Meinwen Guy** a fu farw ar Ebrill 21. Cofiwn yn annwyl am Alun, Sioned a Gordon, a Keith bach yn eu hiraeth am briod, mam a mam-gu dyner a diolchwn am gyfraniad cyfoethog Meinwen i gynifer o feysydd yn y ddinas.

Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau yn ystod yr wythnosau diwethaf i ychwanegu at ein hymdrech tuag at Apêl Arch Noa. Llwyddodd Catrin Parri (Treganna) i redeg marathon Llundain a chodi swm sylweddol tuag at yr apêl. Bu'r Gweinidog a rhyw ugain o blant a phobl hyn yr eglwys ymuno â Ian Botham wrth iddo gerdded o'r Bae i'r castell ar ddiwedd ei daith gerdded noddedig o Fachynlleth i Gaerdydd. Yna, trwy garedigrwydd Hywel a Gwyneth Jeffries cynhaliwyd Soirèe arbennig yn eu cartref i godi rhagor o arian tuag at yr apêl (gan gynnwys ocsiwn ar grys T taith gerdded Ian Botham wedi ei arwyddo gan Catherine Zeta Jones!). Bu'r achlysur hefyd yn gyfle i ddymuno'n dda i'r Parchg Eifion Powell ar ei ymddeoliad haf eleni.

Yn ogystal â'r arbrofi llwyddiannus sydd wedi digwydd gyda rhai o'r oedfaon dros y misoedd diwethaf, parhawn gyda'r arferiad misol o aelodau yn mynd am bryd o fwyd i fwyty ar ôl oedfa'r hwyr – cyfle i barhau trafodaeth a chymdeithasu y tu allan i furiau'r capel.

Yn unol â'n harfer dros wythnos Cymorth Cristnogol, buom yn cefnogi'r Bore Coffi a Ffair a gynhaliwyd yn y Tabernacl, yr Âis ar ddechrau'r wythnos, ac yna casglu o dy i dy yng Ngerddi'r Affrig yn ystod yr wythnos. Mewn gwasanaeth Cymun fore'r Sulgwyn buom yn rhoi sylw arbennig i waith Cymorth Cristnogol gan ganolbwyntio ar fasnach deg.

## SALEM, TREGANNA

Yn ystod mis Mai cynhaliwyd Cymanfa Ganu dosbarth Caerdydd yn Salem, plant yn y bore a'r oedolion yn yr hwyr. Arweiniwyd y Cymanfaoedd yn fywiog gan Mrs Gwawr Owen.

Pleser yw nodi dau fedydd a fu yn Salem yn ystod y mis. Bedyddiwyd Ifan, mab Nia Elin ac Adrian Davies ac fe gawsom dystio hefyd i fedydd Ffion, merch Eleri a Gareth Cooper. Ein llongyfarchiadau mawr i'r ddau deulu.

## BETHEL, RHIWBEINA

Cynhaliwyd "Oedfa o Fawl" flynyddol Cylchdaith Morgannwg o'r Eglwys Fethodistaidd ym Methel brynhawn Sul, Ebrill 21, dan lywyddiaeth y Gweinidog, y Parchedig T. Evan Morgan. Roedd cynrychiolwyr yno o sawl ardal gan gynnwys Pembre, Pontarddulais, Creunant a Trap ger Llandeilo. Y Dr. Richard Elfyn Jones fu'n arwain y canu gyda Mrs Gill Elfyn Jones wrth yr organ. Cymerwyd y rhannau defonsiynol gan bedwar o bobol ifanc Bethel - Lowri Hughes, Sian Elen Williams, Rachel Rawlins ac Aled Hill. Cyflwynwyd y tystysgrifau a bathodynnau i'r plant a'r bobol ifanc fu'n casglu at y Genhadaeth Dramor ac mi gafwyd casgliad teilwng iawn unwaith eto. Yn ystod yr oedfa mwynhawyd datganiad ar yr organ gan Mr. D. Lynn Thomas, Maesteg, o ddwy o'i emyn-donau "Horeb" a "Cwm Llynfi".



Dosbarth Beiblaidd Bethel, Rhiwbina, gyda'r Gweinidog, Y Parch T. Evan Morgan. Cyflwynwyd llun o Bethel i Evan i ddiolch iddo am ei waith gyda'r dosbarth. Miss Nesta Davies yw'r arlunydd.

Dymunir gwellhad buan i Mr. Dennis Francis, Rhiwbina, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Athroafol Cymru.

# Plasmawr

## Taith i Lundain

Gadawodd y bws yr ysgol tua hanner awr wedi naw ar fore Mawrth, Mai 7fed. Roedd pawb yn edrych ymlaen at y diwrnod cyffrous a oedd o'n blaenau. Fe wnaethom gyrraedd y 'Victoria and Albert Museum' ychydig cyn hanner dydd. Yma, fe gawsom tua deugain munud i edrych ar yr arddangosfa Fwslemaidd. Gwelsom blatiau ac offer o'r pymthegfed ganrif, mewn cyflwr perffaith! Ar draws y muriau i gyd hongiai garpedi enfawr a arferai orwedd ar loriau temlau urddasol a chrand.

Wedi i ni orffen yn yr amgueddfa, fe wnaethom gerdded i lawr y ffordd nes cyrraedd 'Harrods'. Fe gawsom amser i fynd i mewn i 'Harrods' a siopau cyfagos a phrynu cinio. Yn fuan wedi i ni gyfarfod â'r athrawon eto, fe aethom yn ôl ar y bws er mwyn mynd i 'Covent Garden' lle cawsom amser i siopa. Dyma le hyfryd sy'n llawn stondinau sy'n gwerthu popeth o dan yr haul! Am chwarter wedi chwech aethom draw i 'Queen's Theatr' ar Shaftsbury Avenue. Profiad arbennig oedd cerdded drwy 'Chinatown' a chael blas ar ffordd hollol wahanol o fyw. Dechreuodd y perfformiad o 'Mysteries' am hanner awr wedi saith ac roedd seddi gwych gan bawb. Roedd y sioe yn hollol anhygoel – fe'i perfformiwyd mewn cyfuniad o bedair iaith. Adroddwyd straeon o'r Beibl gyda dawnsio a cherddoriaeth; roedd dawnsio Affricanaidd a chanu gospel hyfryd. Roedd yn berfformiad ysgubol ac fe fwynhaodd pawb yn fawr. Cyrhaeddom yn ôl ym Mhlasmawr tua hanner awr wedi un bore Dydd Mercher. Roeddem yn flinedig iawn erbyn hyn ond roedd yn ddiwrnod cyffrous a bythgofiadwy!

**Bethan Pickard (Blwyddyn 10)**

## Sgïo yn Awstria

Yn ystod gwyliau'r Pasg aeth un ar hugain ohonom o Blasmawr ar drip sgïo i Schladming yn Awstria. Roedd tri deg o fechgyn Ysgol Rhydfelen ar yr un daith â ni. Cyfeillgar iawn oedd y gyrwyr bws o Gaernarfon a gafodd ychydig o drafferth wrth ein gyrru tuag at y gwesty yng nghanol y mynyddoedd. Nid oedd pont digon cryf i'n dal i gael mynd o un ochr i'r llall! Buom yn sgio ac eirfyrddio am chwe diwrnod ac roedd yn bosib sgio o'r llethrau yn syth at ddrws cefn y gwesty. Yn ystod yr wythnos, aethom i sgio ar fynydd arall gyda'n hyfforddwyr o'r wlad a chael hwyl gyda'r athrawon hefyd! Roedd pob un ohonom wedi datblygu a gwella erbyn diwedd yr wythnos, er bod ambell un wedi cael anaf. Cwympodd Mrs Karen Davies a thorri ei garddwrn ac fe wnaeth Chris Davies niwed i'w gefn. Gyda'r nos, cawsom gyfle i siopa yn Schladming, nofio, bowlio a'r noson olaf cawsom noson wobrwyo gan yr hyfforddwyr a'r athrawon. Roedd y gwyliau'n flinedig ond fe gawsom amser arbennig!

**Elinor Snowsill (Bl. 8)**



## Cylch Meithrin Yr Hen Gapel, Adamstown

Dyma lun Plant Cylch Meithrin Yr Hen Gapel, Adamstown yn dathlu Dydd Cenedlaethol y Llyfr wedi eu gwisgo fel cymeriadau gwahanol allan o lyfrau. Cafwyd bore hwyliog a lliwgar yn paentio gwynebau ag wrth sgwrs gwrando ar stori o dan Arweinyddiaeth Mari Thomas Arweinydd Cylch Meithrin Yr Hen Gapel. Os oes diddordeb gennych chi mewn gweithio gyda phlant dan bump oed trwy gyfrwng y Gymraeg neu yn dymuno cael rhagor o wybodaeth am Fudiad Ysgolion Meithrin Sir Caerdydd rhowch alwad i Jên Dafis ar Caerdydd 2043 6803 neu 07890 918 803.



## Clwb Carco i Ysgol y Wern, Llanisien

Fis Medi nesaf rydym yn gobeithio cychwyn Clwb Carco, sef clwb gofal wedi'r ysgol, i blant Ysgol y Wern, Llanisien. Mae galw mawr am y ddarpariaeth hon, ac mae'r rhieni – yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg – yn frwd dros hyn.

Bydd y Clwb ar agor bob prynhawn o'r wythnos o 3.30 tan 6 o'r gloch, a bydd angen tri i gynorthwyo bob prynhawn.

Os oes diddordeb gan unrhyw un o ddarllenwyr *Y Dinesydd* mewn gweithio gyda'r plant am dâl am ba nifer bynnag o gyfnodau'r wythnos, cysylltwch â fi. Os nad oes gan rywun gymwysterau arbennig i ofalu am blant ifainc oed ysgol gynradd, mae 'na gyrsiau wedi'u trefnu ar eu cyfer. Efallai bod 'na ddysgwyr a hoffai gyfle i arfer eu Cymraeg! Mae cael cynorthwywyr da yn angenrheidiol i lwyddiant y fenter.

Cysyllter â Rhiannon Gregory, "Erw Gornel", 51 Heol y Coed, Rhiwbina. Ffôn: 029 2069 4667.

## Ennill Ysgoloriaethau

Llongyfarchiadau i Gwenllian Glyn, ferch Aled, ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan gwerth £600 y flwyddyn i Goleg y Brifysgol Aberystwyth. Llongyfarchiadau hefyd i Siwan Mererid Dafydd, ar ennill Ysgoloriaeth Evan Morgan gwerth £400 y flwyddyn i Aberystwyth. Mae'r ddwy yn ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf.

# Glantaf

## NEWYDDION YSGOL GLANTAF

Llongyfarchiadau i Rhodri Davies ac Elinor East ar gael eu hethol yn brif swyddogion yr ysgol, ac i Emyr James a Carys Osborne ar gael eu hethol yn ddirprwy brif swyddogion.

## EISTEDDFOD YR URDD

Bydd gan yr ysgol stondin ar faes yr eisteddfod a gwahoddwn bawb draw am baned a sgwrs. Cofiwch yn arbennig am yr aduniad i gyn-athrawon ddydd Iau am 1 o'r gloch, a'r aduniad i gyn-ddisgyblion ddydd Sadwrn am hanner dydd.


## O GAERDYDD I GANBERRA YN 2002

Ar 26 Mawrth aeth wythdeg o blant o wahanol ysgolion Uwchradd Caerdydd ar daith addysgiadol i ben draw'r byd yn Awstralia. Ymhlith yr wythdeg roedd un ar hugain o Ysgol Glantaf. Trefnwyd y daith gan Ganolfan Ieuenctid ac Addysg Gymunedol Waterhall, y Tyllgoed ym mis Medi 2000 ac felly bu'n rhaid bod yn amyneddgar am ddwy flynedd gyfan. Roedd yn rhaid i ni godi arian mewn nifer o ffyrdd er mwyn noddi'r daith arbennig hon. Fe amrywiodd y gweithgareddau codi arian o bacio bagiau nwyddau cwsmeriaid mewn archfarchnadoedd i rasys hwyaid plastig! Bu'r cyfan yn llwyddiannus iawn er yn waith caled ar y pryd.

Gan fod cymaint o blant yn mynd bu'n rhaid ein rhannu i ddau grwp. Ar ôl teithio i Heathrow mewn dau fws o tu allan i Ysgol Plasmawr aethom ar daith unarddeg awr i Japan. Peth da oedd bod gan y cwmni awyr ffilmiau di-ri i'n difyrru a digon o sushi i ni i'w fwyta! Glaniodd un awyren yn Osaka a'r llall yn Narita ac yna bu'n rhaid i ni aros tua chwe awr yn y maes awyr cyn dal dwy awyren arall i Sydney. Arhosodd un awyren yn Brisbane ar y ffordd er mwyn ail-gyflenwi â thanwydd! Wedi cyrraedd Sydney roedd yn rhaid teithio ar fws am bedair awr i Canberra. Roedd yn daith hir a blinedig ond cyffrous iawn gan ein bod yn dilyn yr haul a hithau heb nosi unwaith ers cychwyn ein taith.

Prifddinas Awstralia yw Canberra. Mae'r adeiladau yno yn drawiadol ac yn fodern o ran eu pensaernïaeth. Cawsom ddigon o gyfle i edrych o gwmpas y ddinas gan ymweld â'r Bathdy Brenhinol, y Gofgolofn Rhyfel, siopa, a chael te ar ben Ty'r Llywodraeth. Cawsom gyfle i gymdeithasu trwy gymryd rhan mewn canwio, rhwyfo, sledjo, yn ogystal â digon o gyfleoedd i dorheulo.

Ar ôl gwario wythnos yn Canberra ... ymlaen i Sydney. Yn syth, sylweddolom pa mor wahanol oedd Sydney i Canberra. Roedd prysurdeb Sydney yn debyg i Lundain ac roedd hi'n bur amlwg bod wythnos reit gyffrous o'n blaenau. Ymwelsom am ddiwrnod cyfan â Pharc Adloniant Wonderland gan fynd ar reidiau arbennig o ddifyr yn cynnwys y ffigar-êt pren uchaf yn Hemisffer y De. Hefyd cawsom gyfle i ymweld â'r warchodfa natur gan weld rhai o anifeiliaid cyfarwydd Awstralia. Roedd cyfle i fwydo'r wallabees a chael ein llun wedi ei dynnu gyda'r koalas. Yn ogystal, bu rhai hefyd yn dal nadroedd!



Ymweliad diddorol arall oedd i'r Acwariwm mawr yn Sydney. Daethom wyneb yn wyneb â siarcod mwyaf Awstralia ac o'r diwedd gweld platapws go iawn! Cawsom ein tywys o amgylch Harbwr Sydney ar daith pedair awr mewn cwch a bu hefyd gyfle i ymweld â Thŷ Opera Sydney. Roedd y mwyafrif o'r plant wedi dewis dringo Pont Harbwr Sydney a oedd tua 134m o uchder. Er mwyn ein diogelwch roedd yn rhaid i ni gael ein bachu i ymyl y bont wrth i ni gerdded drosti. Roeddem hefyd wedi derbyn hyfforddiant arbennig cyn mentro ar y fenter. Roedd yr olygfa o ben y bont yn hollol syfrdanol ac yn gwneud anadl yn dipyn anoddach a dweud y gwir. Roedd y daith i Manly yn arbennig a chan fod y tywydd yn gynnes (cychwyn ei Hydref hwy) cawsom gyfle i fynd i'r traeth a nofio yn y môr. Gan mai dim ond deg munud o gerdded ydoedd o'r hostel ieuenctid i ganol y dref roedd yna lawer o gyfleon i siopa! Roedd y mwyafrif o bethau'n rhatach felly trueni nad oedd rhagor o arian gennym ni (yn enwedig gan fod y ddoler Awstraliaidd yn cyfnewid yn ffafriol.)

Rhaid cydnabod yma ein diolchgarwch i'r deunaw o arweinyddion dewr a aeth gyda ni ar ein taith. Roedd ganddynt amynedd Job! Dyma daith fythgofiadwy a phrofiad arbennig iawn, iawn. Rydym yn sicr y byddwn yn mynd yn ôl i Awstralia ryw ddydd, efallai i weithio neu efallai i fyw yno. Pwy a wyr!?

**Nerys Williams a Mari Thomas - 10 Illtud 2**

## Cystadleuaeth Tlws Coffa Roy Stephens

Llongyfarchiadau i ddosbarth cyfryngau Blwyddyn 12 Glantaf ar ennill y tlws hwn am greu cylchgrawn i ieuenctid yng nghystadleuaeth Golwg yn Eisteddfod yr Urdd. Enw'r cylchgrawn yw 02920 - Côd Caerdydd a chyhoeddir y cylchgrawn fel 'atolwg' i rifyn Golwg wythnos yr Eisteddfod.

## Ysgol Melin Gruffydd

Bu pedwar deg o ddisgyblion Ysgol Melin Gruffydd yn ymweld â Chapel Bethel, Rhiwbina. Bu'r Gweinidog y Parchedig T. Evan Morgan, yn sôn wrthynt am arwyddocad y Pasg, ac am weithgareddau'r capel yn gyffredinol.




# TUDALEN YR URDD









## Sioe Hŷn – We hei!

Lluniau o rai o ddisgyblion Ysgol Gyfun Glantaf a Phlasmawr yn ymarfer ar gyfer Sioe Hŷn yr Eisteddfod, 'We Hei!' Mae'r sioe yn cael ei llwyfannu yn Ysgol Uwchradd Stanwell, 30, 31 Mai a 4, 5 Mehefin. Cast o ryw 120 o ddisgyblion sydd yn y sioe ac wedi bod yn ymarfer yn galed dros y flwyddyn ddiwethaf dan gyfarwyddyd Delyth Medi Lloyd a Wyn James.

**Geiriau: Daniel a Mathew Glyn**
**Cerddoriaeth: Steffan Rhys**

## Sioe Iau – Syniad Sam

Sioe fywiog yn cael ei pherfformio gan gast o dros 200 o ddisgyblion ysgolion cynradd Cymraeg Caerdydd a'r Fro. Mae'r sioe yn cael ei llwyfannu yn Neuadd Dewi Sant yn ystod wythnos yr Eisteddfod (3-5 Mehefin). Cyfarwyddir y sioe gan Gwawr Dafis a chriw gweithgar o wirfoddolwyr.



**Geiriau: Ffion Harries**
**Cerddoriaeth: Geraint Cynan**



## Taith i Batagonia

*Yn ystod mis Mawrth aeth Gwen Emyr, un o aelodau'r Eglwys Efengylaidd Gymraeg yng Nghaerdydd, ar ymweliad tair wythnos â'r Wladfa, a dyma rai o'i sylwadau ar gyfer y* Dinesydd.

Roedd hi'n ddiwedd yr haf pan gyrhaeddais, yr hinsawdd yn fwyn a'r croeso'n wresog a hynod o hael. Teimlwn yn gartrefol o'r diwrnod cyntaf.

Un o'r bobl gyntaf a welais ar y bore dydd Sul yng Nghapel y Tabernacl oedd Cathrin Williams, Porthaethwy (awdur *Y Wladfa yn dy Boced*, 2001, a llyfrau eraill), a chan inni fod yn darlithio am gyfnod yn yr un coleg ym Mangor, dyma drefnu cwrdd â'n gilydd i gael sgwrs am y Wladfa a'i hanes.

Drannoeth daeth un o wynebau mwyaf cyfarwydd Caerdydd i mewn i'r Siop Llyfrau Cristnogol yng nghanol Trelew i gael sgwrs, cyn iddo ddychwelyd i Gymru, sef Gwilym Roberts, Rhiwbina. Gwnaeth gymwynas â mi drwy fy nghyflwyno i Gweneira Davies de Quevedo, cyn-athrawes a hanesydd a'm croesawodd ar ei haelwyd y prynhawn hwnnw a'm gosod ar ben ffordd.

Prif amcan fy nhaith oedd cyfweld rhai o Gymry'r Wladfa, a dyna ddiddorol oedd eu hatgofion am rai fel Eluned Morgan, Freddie Green a Nel Fach y Bwcs. Ac yna clywed eu gwerthfawrogiad o waith Mair Davies, y genhades a fu'n llafurio yn y Wladfa ers 1963, ac sy'n parhau i weithio yno mor ddiwyd ag erioed.

Roeddwn eisoes, cyn mynd i'w Wladfa, wedi clywed am Catrin Morris, cyn-athrawes yn Ysgol Uwchradd Rhydfelen, a chefais i ac Alicia Arthur, fy nghydymaith, fore hwyliog yng nghartref Catrin a'u merch fach bum mis oed, Elen. Mynd i'r Wladfa i ddysgu Cymraeg wnaeth Catrin bedair blynedd yn ôl a phenderfynu aros am flwyddyn gan ei bod, erbyn hynny, yn canlyn dyn ifanc o'r Wladfa, a ddaeth yn gymar iddi ymhen blwyddyn. Catrin oedd un o'r chwech oedd yn arwain y gymanfa ganu yng Nghapel Tabernacl ar y nos Sul gyntaf, ac un o'r emynau a lediodd oedd emyn gwlatgar Lewis Valentine, 'Dros Gymru'n Gwlad', gan wneud i Gymraes fel fi deimlo'n gartrefol iawn yn eu plith.

Wedi rhai dyddiau yn Nyffryn Camwy, dyma godi ein pac a llenwi'r car ar gyfer ein hymweliad â'r Andes. Alicia oedd wrth y llyw y rhan fwyaf o'r daith: cefais innau fwynhau'r golygfeydd a ddisgrifiwyd gan yr awdures Eluned Morgan yn ei chyfrol *Dringo'r Andes*. Gwelsom bentrefi distadl ar ein taith, a'r afon Camwy yn llifo heibio iddynt gan sicrhau bywyd a pharhad i'w bodolaeth ddi-nod ond gwerthfawr. Yna, ym Mhentref Tecka, mor bell o'r Dyffryn, ac yng nghyffiniau'r Andes, braint oedd cael ein croesawu ar y radio yn y Gymraeg gan Tegai a Luned Roberts (disgynyddion i Lewis Jones ac Eluned Morgan) ar eu rhaglen wythnosol.

Sylweddolais bwysigrwydd y radio, neu'r 'raddio' fel y dywedir yno, wrth gael fy nghludo ar wib – wedi'r oedfa yng nghapel Seion, Esquel, ar y nos Sul – i stiwdio fechan yn Nhrevelin. Yno roedd Mary ac Alwen Green, merched y diweddar Freddie Green, yn fy nisgwyl, a'r rhaglen emynau wythnosol eisoes ar yr awyr! Yn ystod y rhaglen, cefais gyfle i rannu newyddion am Gymru ac ymateb i gwestiynau Mary rhwng yr amrywiol eitemau cerddorol. Wrth gael fy holi, er enghraifft, am Arfon Jones, Caerdydd, gallwn rannu ychydig o hanes y Brecwast Gweddi a gynhelir yn yr Eglwys Norwyaidd yn y Bae unwaith bob mis, a gwaith Arfon ac eraill yn darparu deunyddiau darllen i ieuenctid ein gwlad.

Un o'r swyddogaethau sydd gan Mary Green, ar ben ei gwaith dysgu yn yr Ysgol Uwchradd yn Nhrevelin, yw cynorthwyo'r tiwtoriaid sy'n cyfrannu i'r prosiect Dysgu Cymraeg yn ardal yr Andes. Mae Mary hefyd yn un o'r athrawon lleol a fu ar y cwrs carlam a gyflwynwyd gan Helen Prosser union flwyddyn yn ôl yn Nyffryn Camwy a'r Andes, ac mae Mary yn awr, ynghyd ag eraill, yn dysgu ychydig o wersi bob wythnos.



Gwen Emyr, yhn nghwmni Catrin Morris ac Elen, tu allan i'w cartref yn y Gaiman

Rhaid crybwyll yr hyn a roddodd fwyaf o wefr i mi yn y Wladfa, sef gweld cynifer o bobl ifanc yn ymateb i'r ffydd Gristnogol. Roedd cynulleidfa niferus yn Ysgol Sul capel y Tabernacl, Trelew, a phobl ifanc a phlant yn amlwg yn mwynhau'r addoliad. Ffrwyth i'r gwersyll Cristnogol arloesol a gynhaliwyd yn ystod ymweliad Dr Phil ac Angharad Elis â'r Wladfa, bymtheng mlynedd yn ôl, yw sawl un o'r arweinyddion a gyfarfyddais. Nhw sy'n gyfrifol am drosglwyddo'r hen hanes i genhedlaeth ifanc egnïol y Dyffryn heddiw, a hynny drwy gyfrwng y Sbaeneg. Ac o ganlyniad i'r cynnydd yn y gwaith a'r diddordeb ymhlith yr ifanc, penderfynodd aelodau hŷn Capel y Tabernacl (sef y rhai sy'n parhau i siarad Cymraeg) y carent hwy drosglwyddo rhywbeth i'r genhedlaeth nesaf. Dyna esbonio pam y codwyd adeilad sylweddol yng nghefn y capel ar gyfer gweinidog a'i deulu, a neuadd ar gyfer gweithgareddau'r capel oddi tanodd.

"Ond mae sefyllfa'r wlad, fel mae'n ddrwg iawn gen i ddweud, yn ddifrifol o wael ar hyn o bryd." meddai May Ceiriog Hughes sy'n weithgar yn y Tabernacl ers bron hanner can mlynedd. "Mae llawer iawn heb waith. Pan does dim gwaith, mae tlodi. Mae yna lawer o gartrefi lle does dim bwyd yn dod i'r tŷ, am fod y tad heb waith. Pan mae llawer o dlodi a'r rhieni heb waith, mae llawer o ddwyn a thorri i mewn i'r tai yn digwydd. Wedyn dyna'r ysbytai. Maen nhw mor dlawd! Rydym ni'n cyfrannu fel medrwn ni. Y mis yma rydym ni'n rhoi, er enghraifft, sebon neu wadin neu bethau eraill angenrheidiol. Ond dydyn nhw ddim yn para dim achos bod cymaint o angen. Dyna sefyllfa'r wlad a'r gaeaf yn agosáu.'

Wrth i'r awyren godi i'r awyr las uwch y paith, a minnau'n cychwyn ar fy nhaith yn ôl i Gymru, meddyliais, wrth gofio geiriau Mei Hughes, tybed beth allwn ni ei wneud yng Nghaerdydd a Chymru i gynorthwyo Cymry Patagonia yn awr eu hangen.

## Seren Pêl-droed Tîm Dinas Caerdydd

Pan chwaraeodd Dîm Pêl-droed Cymru yn erbyn tîm yr Almaen yn ein Stadiwm Genedlaethol ar 14 Mai, enillodd Robert Earnshaw ei gap cyntaf a sgoriodd unig gôl y gêm a dwyn buddugoliaeth i'n tîm cenedlaethol. Daw teulu Robert o Zambia ac ymfudon nhw i ardal Caerffili tua thair mlynedd ar ddeg yn ôl.



Er mai ond 21 oed ydy Robert mae wedi amlygu ei hun fel chwaraewr medrus ac wedi sgorio sawl gôl tra'n chwarae i Dîm Dinas Caerdydd.. Llongyfarchiadau i Robert a phob lwc iddo yn y dyfodol.

## Y Border Bach

gan Hwn a Hon



Mae'r rhan fwyaf o lyfrau garddio yn dweud wrthych am beidio ar unrhyw gyfrif geisio rhannu neu symud gwreiddyn o rosyn mynydd (peony). 'Rwi am feiddio anghytuno â'r gwybodusion, oherwydd mae gen i rosyn mynydd a ddechreuodd ei daith yn Sir Fôn ganrif yn ôl ac sydd nawr wedi cyrraedd a blodeuo yma yng Nghaerdydd!

Aed a thamaid ohono o Fodedern lle'r oedd fy hen daid a nain yn byw i Lerpwl tua thridegau'r ganrif ddiwethaf i gartref fy nhaid a nain. Yna pan briododd fy mam a symud i Rydaman aed a gwreiddyn ohono yno. Mae gennyf gof plentyn ohono'n tyfu'n hapus wrth droed un o bolion y lein ddillad. Yna pan fu i'm rhieni ymddeol symudodd y rhosyn mynydd gyda nhw i Benygroes, Llanelli, ac eto fe flodeuodd yn llwyddiannus. Pan ddaeth fy nhad i Gaerdydd i fyw ryw dair blynedd yn ôl fe gafodd y rhosyn mynydd ddod gydag ef, y tro yma i fyw mewn pot am fod tir yr ardd yn rhy gleiog. 'Roeddwn yn meddwl ei fod wedi pwdu y tro yma, ond eleni er pleser mawr i mi mae wedi blodeuo eto.

Mi fyddai'n meddwl am y rhosyn mynydd fel blodyn gwerinol, ond mae wedi dod yn hynod ffasiynol yn ddiweddar gan y bobl sy'n gosod blodau yn ogystal â'r cynllunwyr gerddi. Yr un cyffredin sydd gen i h.y. yr un coch tywyll a blodau dwbl. Gellwch hefyd gael mathau pinc a gwyn, ac ambell i un melyn gyda blodau sengl neu ddwbl. Mae'r planhigyn i gyd yn marw nôl yn y gaeaf, ond wrth ail-ymddangos yn y gwanwyn mae gan y dail wawr gochlyd deniadol sy'n ychwanegu at ei olwg.

Y gyfrinach mae'n debyg yw peidio â'u plannu'n rhy ddwfn. Tyfwch nhw mewn lle heulog er fe allant roi i fyny â pheth cysgod. Mae'n talu i roi rhywbeth i gynnal y mathau talaf cyn iddynt flodeuo gan fod pwysau glaw ar y blodau yn gallu eu plygu i'r llawr.

Mae rhai blodau parhaol yn gallu rhoi i fyny ar ôl ychydig o flynyddoedd, ond mae'r rhosyn mynydd gyda'r mwyaf hirhoedlog fel y gwelwch o'r hanesyn hwn.

## Ar y CYD...

yng ngofal Lynne Davies

I mi, mae'r haf yn dechrau yn syth ar ôl yr arholiad olaf – eleni, felly, ar y chweched o Fehefin! Dyna'r cyfnod pan wy'n cael gwneud yr holl bethau nad oedd amser iddyn nhw yn ystod y Gaeaf, fel darllen gweddill y llyfrau ges i ar gyfer y Nadolig am un peth! Mae o leiaf dwy nofel gyda fi yn aros yn amyneddgar ar y silff! Beth sy'n well nag eistedd allan dan yr haul (neu hyd yn oed mewn rhag y glaw) ac yn ymgolli'n llwyr mewn llyfr? Un peth rwy'n hoffi ei ddarllen (ac sy'n dangos fy oedran meddyliol, efallai) yw barddoniaeth ar gyfer plant. Un o'm hoff awduron yw Myrddin ap Dafydd, Peter Pan o fardd sy'n gallu troi'n ôl yn fachgen direidus wrth godi beiro. Bydd Eisteddfod yr Urdd yn lle gwych i chwilio am lyfrau. Os ydych chi'n dod i Eisteddfod yr Urdd (ac os na, rwy eisiau gwybod pam!) dewch i mewn i Babell Tafod, sef Pabell y Dysgwyr, a gweld pa mor dda mae plant Caerdydd yn dysgu'r iaith. Fe wela' i chi yno!

**Geirfa**

| | |
|---|---|
| arholiad – *exam* | ymgolli – *to lose oneself* |
| cyfnod – *period* | oedran meddyliol – *mental age* |
| gweddill – *the rest* | direidus - *mischievous* |
| yn amyneddgar – *patiently* | gwych - *splendid* |

## ANIMEIDDWYR IFANC YN AIL-YMWELD Â'R HEN LYFRGELLI WELD EU FFILM AM GAERDYDD

Dychwelodd deugain o blant ysgol Caerdydd a fu'n gweithio ar fideo animeiddio i ategu Cais Caerdydd i ddod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008 i'r Hen Lyfrgell am ddangosiad preifat ar 11 Mai.

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd y ffilm pum-munud, Caerdydd - lle cwl, ym mis Chwefror a Mawrth gan y grwp animeiddio o Gaerdydd, Cinetig, gyda chymorth disgyblion o bedair ysgol yng Nghaerdydd - Ysgol Melin Gruffudd, Ysgol Herbert Thompson yn Nhrelái, Ysgol Arbennig Meadowbank ac Ysgol Gynradd Albany. Bu myfyrwyr animeiddio o Ysgol Celf a Dylunio Casnewydd hefyd yn gweithio gyda hwy. Ffrwyth eu llafur yw darlun hyfryd o Gaerdydd trwy lygaid plentyn, gyda'i arddull naïf a'i drac sain syml yn dangos prifddinas Cymru mewn ffordd ffres a chyffrous.

Yn ogystal â gwylio'r ffilm, cafodd yr animeiddwyr ifanc wledda ar deisennau a bisgedi a gadael ôl eu bysedd ar waith celf sy'n cael ei baratoi yng nghaffi'r Hen Lyfrgell.

**Mwy o wybodaeth:** Cysylltwch â Lowri ap Robert yng Nghaerdydd 2008 ar 029 20 872008 neu ebost lowri@cardiff2008.co.uk

## MERCHED Y WAWR

Cynhaliodd Merched y Wawr gwis cenedlaethol nos Wener, 19 Ebrill a phedwar ar ddeg o ranbarthau wedi cyfarfod mewn gwahanol leoedd drwy Gymru.

Dewisodd ranbarth y De Ddwyrain gwrdd yn yr "Old Church Rooms" yn Radur a chafwyd noson hwyliog dros ben.

Llongyfarchiadau i **Jenny Heeney, Bethan Jenkins, Anne Williams a Hefina Davies** o gangen Merthyr a ddaeth yn fuddugol yn rhanbarth y De Ddwyrain.

Os hoffech ymuno â'r mudiad cysylltwch ag Eleanor Jones ar **2056 1906** am fanylion pellach.



*Jenny Heeney, Bethan Jenkins, Anne Williams a Hefina Davies, buddugolwyr y Cwis Cenedlaethol.*

## Salm o Ddiolch i Weinidog Hoff

**Cyflwynedig i'r Parchg Eifion Powell yn Llys Tre-garth, cartref Gwyneth a Hywel Jeffreys, Caerdydd, nos Lun, 29 Ebrill 2002.**

Heno ar hwyrddydd o Ebrill,
A'r gwanwyn teg yn y tir,
A ninnau oll yn gytun yn yr un lle,
Wedi ymgolli'n llwyr yn hud a cheinder chwedl a chân,
Wele, i Lys Tre-garth daeth gwestai arbennig iawn:
Pen tywysog a pherffeithydd ein ffydd;
Penteulu yn llonni'r aelwyd,
A Iesu o Nasareth oedd Ef.
Tybiais innau glywed gynnau fach
Lef ddistaw fain yn dywedyd fel hyn
Wrth un o'i weinidogion hoff:
'Fy mab, tydi blentyn y bendigedig Dduw,
Teilwng etifedd dy hynafiaid, hen lowyr a gwladwyr dy gwm;
Ti fu'n trysori'r dreftadaeth loyw o genhedlaeth i genhedlaeth;
Ti fu'n rhannu'r manna o'r nef i'r newynog
Ac yn cynnig y dŵr bywiol i'r sychedig rai;
Ti fu fel y Samariad gynt yn rhoi ennaint ar glwyf;
Ti fu'n gwmni i'r unig pan fo'r nos yn hir;
Dy ffraethineb di sydd fel grisial ddŵr ffynnon
Yn fodd i buro ac i ymlawenhau.
A phan groesodd yr angau didostur riniog y drws i'th dŷ,
A dwyn oddi arnat d'anwylyd,
Ni ddiffygiaist, ni ddiffoddwyd cannwyll dy ffydd.
Buost gyda mi ar ben y mynydd yn gwrando'r Gair;
Buost gyda mi eilwaith ar y gwastadeddau,
Ddydd ar ôl dydd, yn myfyrio'r Gair,
Yn cyhoeddi'r Gair ac yn rhoi'r Gair ar waith.
Ar y llwybr garw i Galfaria,
Ar y ffordd i Emaus,
Yr oeddet ti yno gyda mi.
Adnabuost fi,
Ceraist fi,
Dilynaist fi bob cam o'r daith.
Am hynny, fy nisgybl annwyl,
Boed wyn dy fyd;
Bydd iti eto nerth i gario'r groes
A gras i ddyfalbarhau yng ngwaith y winllan.
A heno ar hwyrddydd o Ebrill,
Pan fo'r Pasg o hyd yn y cof a'r Pentecost eto ar ddod,
Tyrd gyda mi i'r wledd,
Swpera gyda mi wrth y bwrdd.'

**Robin Gwyndaf**

## Dathlu etifeddiaeth Cymru mewn blodau

**Beth:** Gŵyl Flodau: "Ein Hetifeddiaeth Deg"
**Ble:** Eglwys Dewi Sant, St Andrews Crescent, Caerdydd
**Pryd:** 11am-7pm, Mehefin 27-29.
1pm-5.30pm, Mehefin 30.
**Sut:** Mynediad £2. Cysyllter â Mrs Margaret Hughes ar 029 2089 1351

Etifeddiaeth Cymru yw thema Gŵyl Flodau arbennig a gynhelir yn Eglwys Dewi Sant, Caerdydd rhwng Mehefin 27 a 30.

"Ein hetifeddiaeth deg" dyfyniad o Salm 16, yw teitl yr Ŵyl a fydd yn dehongli sawl agwedd ar dreftadaeth Cymru ar ffurf gosodiadau o flodau.

Ymhlith y themâu fydd yn ffurfio rhan o'r arddangosfa fydd: Cerddoriaeth, yr Iaith Gymraeg, Diwydiant a'r Cefn Gwlad.

Bydd yr Ŵyl ar agor rhwng 11am-7pm ddydd Iau, Mehefin 27, dydd Gwener Mehefin 28 a dydd Sadwrn, Mehefin 29. Ar ddydd Sul, Mehefin 30, bydd ar agor rhwng 1-5.30pm.

Bydd cyfle i ymwelwyr wrando ar eitemau cerddorol hefyd. Bydd cyngerdd hanner-awr am 12.30 ddydd Sadwrn, ac fe fydd yr Ŵyl yn cloi gyda gwasanaeth hardd yn agos at brif stryd siopa Heol y Frenhines. Y Parchg Meurig Llwyd yw'r ficer.

Estynnir croeso cynnes i bawb ymuno ag aelodau yr eglwys Gymraeg hon i ddathlu'r Ŵyl. Bydd aelodau Dewi Sant yn falch o groesawu ymwelwyr o bell ac agos i fwynhau gwledd o flodau mewn awyrgylch Cymreig yng nghanol y brifddinas.

Am ragor o wybodaeth cysyllter â Mrs Margaret Hughes ar 029 2089 1351.

## Cwis Cenedlaethol CYD 2002

### Cwis i ddysgwyr a Chymry Cymraeg

**Cynhelir y rownd lleol o'r cwis uchod yn AMIGOS Café Bar, 11 Plas Windsor (oddiar Heol y Frenhines), Caerdydd ar nos Iau 13eg o Fehefin 2002 am 8pm.**

Rheolau: Hyd at 6 mewn tîm - rhaid bod o leiaf un siaradwr Cymraeg rhugl ac un dysgwr ym mhob tîm. Mi fydd y tîm buddugol yn mynd ymlaen i gynrychioli Caerdydd yn y rownd derfynol a gynhelir am 2.00 y prynhawn dydd Mercher 7fed o Awst 2002 ym Mhabell y Dysgwyr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru Sir Benfro, Tŷ Ddewi.

**Gwobr gyntaf i'r tîm lleol buddugol: £50.00**

Ffi cystadlu £1.00 y pen • Disgo gan Ceri Clwb i ddilyn

**Trefnir gan Pwyllgor Dysgwyr Menter Caerdydd**
**Noddir gan Fanc yr HSBC**

Am fanylion pellach cysyllter â Menter Caerdydd ar 029 2045 0529 neu menter@caerdydd.org


# DISGO CERI CLWB

60au, 70au, 80au

Pob nos Sadwrn ym mis Mehefin 2002 yn

# AMIGOS

11 Plas Windsor, Caerdydd.

*(oddiar Heol y Frenhines)*



SAIN

**SAIN i'ch clustiau a'ch llygaid**

*Casetiau, Fideos a CD's newydd ar gael o uned* ***SAIN*** *yn Steddfod yr Urdd neu o'ch siop Gymraeg leol*

- **DAVID LLOYD 3** Y Llais Arian
  Y tenor bytholwyrdd yn cyflwyno **Yr Hen Gerddor, Arafa Don, Sul y Bodau, Elen Fwyn, Carol y Blwch** a chaneuon Saesneg fel **Who is Sylvia?** a **The Temple Bells**
- **GWENNO SAUNDERS** Môr Hud
  5 cân yn cynnwys **Ysbryd y Nos** gan yr actores o Gaerdydd
- **TNT** Chwarae Gêm 'da fi - 5 cân egniol yn cynnwys dwy Saesneg
- **INGRID SURGENOR piano** Partners in Song
  Cerddorion byd-enwog â chaneuon o wahanol wledydd
  **NUCCIA FOCILE, MARY HEGARTY, JASON HOWARD, LEAH-MARIAN JONES a DENNIS O'NEILL**
- **SHARON EVANS** Ynys y Plant
  Casgliad o ffefrynnau fel **Sul y blodau, Lle Roet Ti a Mai** gan enillydd yr Unawd Soprano ac Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts
- **FIDEO 2 DIC A DEI a Delyth** Ar y Safle Adeiladu
  Digon o hwyl a llanast lloerig! Gwyliwch Dic a Dei mewn trwbwl ynghanol y craen, y JCB a'r sment - cyn i Delyth ddod i'w helpu
- **DVD DIC A DEI a Delyth** - £16.99
  Disg Fideo Digidol sy'n dangos sut aethpwyd ati i sgriptio, recordio, golygu a dyblygu dau fideo yn y gyfres boblogaidd hon. Gyda'r storïwr Dyfan Roberts, Emily Huws a phlant Llanllyfni'n canu'r arwyddgan

**SAIN – LLANDWROG – CAERNARFON – GWYNEDD – LL54 5TG**
**01286 831.111 sain@sain.wales.com www.sain.wales.com**

# TŶ AR OSOD
# TREGANNA

Tŷ 2-3 ystafell wely yng Nghaerdydd yn mynd ar osod Hydref 2002.

*Am fwy o fanylion ffoniwch*


**07779 647576** *ddydd neu nos*

# FFLAT HYFRYD YNG NGHAERDYDD

- Addas i un neu ddau
- Ardal y Tyllgoed
- £400 y mis
- Dim ysmygwyr

***Cysylltwch â Mr. Jones***

**029 2062 7649**




# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni?
Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

## AEGIS YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL CYF

***Am gyngor ariannol annibynnol cysylltwch â***

# Geraint B. Llewelyn

MLIA (DIP)

**291 FFORDD CYNCOED, CYNCOED, CAERDYDD, CF23 6PA**

**FFÔN: (029) 20228223 FFACS: (029) 20761309**

E-bost: aegis-ifa@supanet.com

AELOD O DBS RHEOLAETH ARIANNOL CCC
A ORUCHWILIR GAN AWDURDOD BUDDSODDI PERSONOL

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch

**Caerwyn Davies**

ar **029 20868208**

neu **07967 558664**

## YSGOL GYMRAEG PWLL COCH

Rhodfa Lawrenny, Caerdydd CF11 8BR
Ffôn: 029 2037 3453 Ffacs: 029 2022 1917
Pennaeth: Miss Anna Roberts

## SWYDD LLAWN AMSER: CLERC YSGOL

30 awr yr wythnos

GRADD 4: 38 wythnos y flwyddyn (amser tymor) £9267-£10329

*CYFNOD MAMOLAETH GORFFENNAF 2002 - MEHEFIN 2003*

Gwahoddir ceisiadau ar gyfer y swydd uchod dros gyfnod mamolaeth estynedig. Dylai'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar sgiliau prosesu geiriau da.
Cynigir hyfforddiant mewn gweithdrefnu ariannol ac agweddau eraill yn ystod y cyfnod.
Dyddiad cau ar gyfer y swydd: Mehefin 28ain.
Am ffurflen gais, anfonwch amlen hunan gyfeiriedig at y Pennaeth.